

Rhaglen Archwilio Cardiaidd Genedlaethol

Ail Adroddiad 2025 ar
gyfer cleifion, gofalwyr
a'r cyhoedd.

(Data 2024/25 a 2022/25)



Rhaglen Archwilio Cardiaidd Genedlaethol Ail Adroddiad 2025 ar gyfer cleifion, gofalwyr a'r cyhoedd

[Ynglŷn â'r adroddiad hwn](#)2

[Sut i ddarganfod mwy](#)2



[NEGES 1: Dylai cleifion sy'n credu eu bod yn dioddef trawiad ar y galon ffonio 999 am ambiwlans a pheidio â mynd i'r ysbyty eu hunain](#)3



[NEGES 2: Mae angen i lawer o ysbytai fod yn llawer gwell wrth ddilyn safonau clinigol a chanllawiau cenedlaethol wrth ragnodi meddyginiaeth i gleifion y galon](#)5



[NEGES 3: Mae'r GIG yn parhau i arloesi a chyflwyno triniaethau newydd sy'n fuddiol i gleifion y galon ond gall y broses gyflwyno fod yn anghyson](#)8



[NEGES 4: Dylai pob ysbyty gyflwyno data amserol i'r archwiliadau a'r cofrestrfeydd cardiaidd cenedlaethol i gefnogi gwelliant ansawdd parhaus](#)10

[Adnoddau defnyddiol](#)12

[Diolch a chydabod](#)14



Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad NICOR agrededig yn gwella gyda phob cyhoeddiad. Cyflwynir gwybodaeth yn gliriach, mae ystadegau ar gael ar unwaith, ac mae'r data'n fwy cyfredol.

Mae'r holl welliannau hyn yn helpu gwaith y Grŵp Cynrychiolwyr Cymunedol (GRC), sef tynnu sylw at welliannau mewn perfformiad a chanlyniadau a thynnu eich sylw at y data sy'n dweud wrthym nad yw pethau'n mynd cystal.

Dyma'r ail adroddiad gan y GRC i gyd-fynd â'r ail adroddiad agrededig eleni. Mae hyn yn adlewyrchu'r gwaith gan NICOR i gyflwyno ei adroddiad ar ganlyniadau'r flwyddyn ariannol flaenorol. Mae'r adroddiad ychwanegol hwn yn caniatáu inni gyflwyno ein meddyliau a'n myfyrdodau mewn ffordd wahanol. Felly, rydym wedi manteisio ar y cyfle i graffu ar gwpl o benawdau mawr sy'n peri pryder i ni a byddwn yn edrych ar y rhain yn fanwl.

Rwy'n argymhell yr ail adroddiad cryno ar gyfer 2025 ar gyfer Rhaglen Archwilio Cardiaidd Genedlaethol (NCAP) NICOR fel rhywbeth angenrheidiol i'w ddarllen i unrhyw un sydd â diddordeb mewn gofal cardiaidd yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'n drysorfa o wybodaeth ac ni ddylai rhanddeiliaid a chomisiynwyr gofal y galon ei anwybyddu.

Sut i ddarganfod mwy

I gael rhagor o wybodaeth gefndirol am ein gwaith a'r NCAP, tynnaf eich sylw at ein hadroddiad cyntaf eleni, sy'n llawn ffeithluniau defnyddiol a gwybodaeth gefndirol i'r archwiliadau unigol a rhestr termau.

Ar ran y GRC hoffwn ddiolch i dîm NICOR, a holl arweinwyr a thimau'r gofrestrfa, am eu gwaith caled a'u hymroddiad wrth gynhyrchu'r adroddiad addysgiadol hwn.

Sarah Murray

Cadeirydd Grŵp Cyfeirio Cymunedol NICOR



NEGES 1:

Dylai cleifion sy'n credu eu bod yn dioddef trawiad ar y galon ffonio 999 am ambiwlans a pheidio â mynd i'r ysbyty eu hunain.

Mae trawiadau ar y galon 'risg uwch' (a elwir yn gnawdnychiant myocardaidd â chodiad segment t neu STEMI yn fyr), yn cynnwys culhau neu rwystro'r rhydweiliau coronaidd yn sydyn.





Gall y gostyngiad canlyniadol mewn ocsigen i gyhyr y galon arwain at fethiant y galon (colli swyddogaeth pwmpio'r galon) ac yna o bosibl marwolaeth neu ddifrod anadferadwy i'r galon.

Gorau po gyntaf y gellir ailagor y rhydweli, y lleiaf o ddifrod i'r galon fydd yn digwydd a'r mwyaf yw'r siawns o oroesi'r cyfnod ('amser yw cyhyr'). Y mesur cyffredinol a ddefnyddir i asesu cyflymder amseroedd triniaeth yw'r amser Galwad-i-Falw'n (CTB), o'r adeg y mae claf yn ffonio'r gwasanaethau brys i'r adeg y dechreuir triniaeth ymyriad coronaidd sylfaenol drwy'r croen (PPCI) i ailagor y rhydweli. Yn anffodus, i bron i 30,000 o gleifion, mae'r amser CTB cyfartalog a gymerir i drin cleifion STEMI bellach 25 munud yn hirach nag yr oedd yn 2015/16.

Mae'r oedi hwn yn amseroedd triniaeth yn bennaf oherwydd ei fod yn cymryd mwy o amser o'r adeg y mae claf yn ffonio'r gwasanaethau brys am gymorth i gyrraedd ysbyty lle gellir cadarnhau'r diagnosis a darparu triniaeth. Fe wnaeth yr amser Galwad-i-Ddrws (CTD) hwn wella ychydig yn 2023/24 (am y tro cyntaf ers blynyddoedd lawer), ond ni fu unrhyw welliant pellach yn 2024/25. O ganlyniad, mae amseroedd CTD yn dal i fod 20 munud yn hirach nag yr oeddent 10 mlynedd yn ôl.

Efallai yn rhannol mewn ymateb i oedi mewn amseroedd ymateb brys, mae cyfran llawer uwch o gleifion trawiad ar y galon – tua 10% â STEMI a 30% â rhai nad ydynt yn NSTEMI (NSTEMI) – bellach yn ymglyfwyno i'r ysbyty o'i gymharu â chyn pandemig COVID-19 ac mae'r duedd hon yn parhau.

Mae gan gleifion STEMI sy'n ymglyfwyno amseroedd Symptom-i-Falw'n (STB) hirach na'r cleifion hynny a gludir yn uniongyrchol mewn ambiwlans. Mae hyn yn golygu nad ydyn nhw wedi derbyn triniaeth yn gyflymach ac ar yr un pryd wedi peryglu eu diogelwch drwy ddileu'r potensial am adfywio cynnar, os oes angen, gan ambiwlans parafeddyg. Mae'n bosibl bod cleifion wedi marw naill ai cyn cyrraedd yr ysbyty neu mewn adrannau damweiniau ac achosion brys oherwydd hyn.

Yn hollbwysig, dylai unrhyw un sy'n meddwl ei fod yn cael trawiad ar y galon alw am gymorth gan y gwasanaethau ambiwlans. Gall y gwasanaeth ambiwlans wneud asesiad clinigol ac yna trosglwyddo'r claf cyn gynted â phosibl yn uniongyrchol i'r ysbyty mwyaf priodol.



Mae gwasanaethau ambiwlans yn gyfrifol am ymateb i alwadau am gymorth a chludo'r claf i'r ganolfan driniaeth a dylai gwelliannau yn amseroedd CTD ar gyfer cleifion STEMI 'risg uwch' fod yn flaenoriaeth.


NEGES 2:

Mae angen i lawer o ysbytai fod yn llawer gwell wrth ddilyn safonau clinigol a chanllawiau cenedlaethol wrth ragnodi meddyginiaeth i gleifion y galon.



Mae cleifion ag afreoleidd-dra rhythm y galon o'r enw ffibriliad atrïaidd (AF) mewn mwy o berygl o gael strôc. Mae gan y cleifion hyn lif gwaed annormal yn siambr chwith gefn y galon (yr atriwm chwith) a gall ceuladau gwaed ddatblygu wedi hynny mewn rhai rhannau o'r siambr honno. Gall y ceuladau hyn dorri'n rhydd a mynd i fyny i'r ymennydd, gan rwystro pibell waed ac achosi niwed i feinwe'r ymennydd. Mae [canllawiau'n](#)¹ tynnu sylw at y ffaith y gellir lleihau'r risg hon trwy ragnodi cyffur gwrthgeulydd ('teneuydd gwaed'). Mae cleifion sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty gyda methiant y galon ac sydd hefyd â ffibriliad atrïaidd mewn perygl arbennig o gael strôc yn y dyfodol. Mae'n destun pryder, felly, nad yw lleiafrif sylweddol o gleifion â methiant y galon a ffibriliad atrïaidd yn cael eu rhagnodi â gwrthgeulydd, rhywbeth y mae'r Archwiliad Cenedlaethol o Fethiant y Galon (NHFA) wedi adrodd arno dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Dim ond pump allan o bron i 200 o ysbytai a ryddhaodd 90% neu fwy o gleifion cymwys gyda gwrthgeulydd yn 2024/25.



Dylai cleifion methiant y galon (HF) â ffracsiwn alldaflu llai (pan nad yw'r galon yn pwmpio cymaint o waed ag y dylai) sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty gael eu rhagnodi â'r 'pedwar colofn gofal' (oni bai bod hyn wedi'i 'wrth-arwyddo' gan nad yw'n briodol i'r unigolyn): beta-atalydd, atalydd ACE (neu gyfwerth), gwrthweithydd derbynnnydd mineralocorticoid (MRA), a chyffur atalydd cludwr sodiwm glwcos 2 (SGLT2i). **Mae angen llawer mwy o ymdrech i sicrhau bod pob claf yn cael ei ryddhau ar bob un o'r pedwar cyffur gan mai dim ond mewn 50% o achosion y mae hyn yn digwydd ar hyn o bryd.**

Nid yw MRAs yn cael eu rhagnodi i bob claf, er gwaethaf y dystiolaeth gadarnhaol sydd wedi bod ar gael ers blynyddoedd lawer. Nid oes sail i rybudd gormodol ynghylch y posibilrwydd y gallai MRAs gyfrannu at fethiant arenol neu achosi potasiwm uwch gan fod yr archwiliad wedi dangos nad oes llawer o wahaniaeth yn lefelau creatinin a photasiwm y rhai sy'n derbyn a'r rhai nad ydynt yn derbyn cyffur MRA.

¹www.nice.org.uk/guidance/ng196



Yn dilyn trawiad ar y galon, mae canllawiau'n argymhell defnyddio cyffuriau gwrthblatennau, atalydd beta, statin, ac atalydd ACE (neu gyfwerth) i helpu i sefydlogi cronni cramennau brasterog y tu mewn i rydwelïau (a elwir yn gyflwr atherosclerotig) ac i atal digwyddiadau cardiaidd niweidiol pellach. Mewn cleifion â nam ar swyddogaeth pwmpio'r galon, argymhellir triniaeth gyda MRA hefyd.

Mae gostyngiad pryderus yn y defnydd o'r cyffuriau atal eilaidd hyn, gyda dim ond 78% o gleifion cymwys yn derbyn yr holl ddsbarthiadau cyffuriau a argymhellir.



Ar ôl cael PCI sylfaenol, mae cleifion trawiad ar y galon STEMI 'risg uwch' yn cael eu trin â dau gyffur gwrthblatennau ar wahân, fel arfer aspirin a clopidogrel. Mae canllawiau'n argymhell defnyddio cyffuriau gwrthblatennau newydd (prasugrel neu ticagrelor) yn lle clopidogrel ar gyfer y cleifion hyn, gan fod y canlyniadau'n well. **Mae rhagnodi'r cyffuriau hyn yn cynyddu, wedi'i sbarduno'n bennaf gan gynnydd mewn prasugrel wrth i'r defnydd o ticagrelor ostwng ond yn groes i'r canllawiau, mae rhai ysbytai yn dal i ddefnyddio clopidogrel mewn llawer o achosion.**

NEGES 3:

Mae'r GIG yn parhau i arloesi a chyflwyno triniaethau newydd sy'n fuddiol i gleifion y galon ond gall y broses gyflwyno fod yn anghyson.





Mae gweithdrefn newydd bellach ar gael gan y GIG ar gyfer cleifion â ffibriliad atrïaidd (AF) sydd â risg uwch o gael strôc oherwydd ceuladau gwaed sy'n ffurfio yn yr atriwm chwith (siambr gefn chwith y galon). Os na all cleifion gymryd gwrthgeulyddion, oherwydd y risg o waedu, defnyddir dyfais drwy gathetr i gau poced fach o siambr y galon a elwir yn atodyn atrïaidd chwith.

Mae rhywfaint o dystiolaeth i awgrymu bod menywod yn gyffredinol ychydig yn llai tebygol o ddioddef o ffibriliad atrïaidd na dynion, ond hyd yn hyn dim ond 33% o achosion sydd wedi'u cyflawni ar fenywod. Mae yna hefyd lai o gleifion nag a ddisgwyliid o ethnigrwydd lleiafrifol, sy'n awgrymu bod angen gwaith ar lwybrau atgyfeirio ar draws rhanbarthau.



Gweithdrefn arall i leihau'r risg o strôc yn y dyfodol yw clipio'r atodyn atrïaidd chwith adeg llawdriniaeth ar y galon ar gyfer cleifion â ffibriliad atrïaidd sydd mewn mwy o berygl o gael strôc. **Bu twf sylweddol yn y defnydd o glip atodyn atriwm chwith.**

Mae'r GIG bellach yn comisiynu dulliau newydd drwy'r croen o drin problemau falf meitrol, sef triniaethau atgyweirio ymyl-i-ymyl drwy gathetr (TEER) ar gyfer dadlynciad meitrol dirywiol sylfaenol mewn oedolion. **Efallai nad yw'n syndod, wrth i Fyrddau Gofal Integredig (ICB) a Byrddau Iechyd fireinio eu llwybrau atgyfeirio a chynyddu capasiti, fod dosbarthiad anghyfartal o achosion wedi'u safoni yn ôl oedran ledled y wlad ar hyn o bryd, gydag amrywiad 15 gwaith rhwng Rhwydweithiau Cardiaidd wrth gymharu'r cyfraddau triniaeth isaf ac uchaf fesul miliwn o boblogaeth.**

Nod gweithdrefnau patent cau fforamen ovale (PFOC) yw lleihau strôcs ymhellach mewn cleifion sydd wedi dioddef y rhain heb reswm sylfaenol adnabyddadwy (a elwir yn strôcs cryptogenig). Mae'r dechneg hon, sydd ar gael ers 2019, yn cau twll bach rhwng siambrau cefn y galon.

Mae'r Gofrestrfa PFOC newydd hefyd yn dangos mynediad anghyfartal at driniaeth ledled y wlad, gyda chyfraddau triniaeth o 0.6 i 14.9 fesul miliwn o'r boblogaeth mewn gwahanol Fyrddau Gofal Integredig (ICB) yn Lloegr a Byrddau Iechyd Prifysgol yng Nghymru.



NEGES 4:

Dylai pob ysbyty gyflwyno data amserol i'r archwiliadau a'r cofrestrfeydd cardiaidd cenedlaethol i gefnogi gwelliant ansawdd parhaus.



Rydym yn deall bod rhai ysbytai yn uwchlwytho data yn barhaus yn uniongyrchol i system NICOR. Mae eraill yn casglu eu data yn gyntaf gan ddefnyddio meddalwedd trydydd parti ac yna'n ei uwchlwytho ar adegau amrywiol o'r flwyddyn, ac mae rhai'n methu'n gyson ag uwchlwytho eu data o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt neu o gwbl.

Bydd heriau bob amser yn y maes hwn, ond oni bai bod y Llywodraeth, rhanddeiliaid a chomisiynwyr yn gallu gweld gwybodaeth brydlon a chyfredol, bydd yn effeithio ar gomisiynu gwasanaethau'r galon i gleifion ym mhobman.

Gall data anghyflawn hefyd effeithio ar yr hyder sydd gan gleifion a rhanddeiliaid eraill yn ansawdd gwasanaeth ysbyty penodol.

O ganlyniad, bydd y GRC yn ysgrifennu at Brif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Meddygol y 10 ysbyty sy'n perfformio gwaethaf yn yr adran hon yn gofyn am esboniad a datrysiaid i broblem y data anghyflawn, yn ogystal ag esboniad dros y diffygion sylweddol o ran targedau. Byddwn yn parhau i fonitro'r sefyllfa hon yn ein hadroddiad nesaf yn 2026.



Adnoddau Defnyddiol

Geirfa A-Z NICOR

I weld Geirfa A-Z NICOR, ewch i'r wefan. [website](#).

Cymorth i ofalwyr

Mae gan ofalwyr rôl sylfaenol ym mywydau cleifion sy'n byw gyda chyflwr ar y galon ac mae eu cyfraniad yn amhrisiadwy i lesiant cleifion. Dyma rai ffynonellau cyngor a chefnogaeth:

- [GIG: Cyflwyniad i ofal a chymorth](#)
- [Ymddiriedolaeth y Gofalwyr](#)

Iechyd Meddwl

Mae problemau iechyd meddwl yn mynd law yn llaw â digwyddiadau iechyd sy'n newid bywydau. Gall anhwylder straen ôl-drawmatig (PTSD), gorbryder ac iselder ymddangos yn llethol ond mae cefnogaeth ar gael:

- [Therapiau siarad y GIG](#)
- [Y Samariaid](#)
- [MIND](#)
- [Sefydliad Prydeinig y Galon: Heart matters magazine – Mental Health, coping with anxiety and depression](#)

Gwneud penderfyniadau ar y cyd.

Anogir cleifion i drafod manteision ac anfanteision y driniaeth y mae meddyg wedi'i hargymell. Mantais hyn yw y gall pryderon y claf a'u sefyllfa gyffredinol gael eu hystyried, yn hytrach na chanolbwyntio ar y materion meddygol yn unig. Weithiau, gall yr hyn y mae meddyg neu nyrs yn ei feddwl sydd orau i'r claf fod yn wahanol i'r hyn y mae ar y claf ei eisiau.

Mae'r broses o wneud penderfyniadau yn ddeialog ddwyffordd, felly mae'n cael ei 'rhannu'.

- [GIG Lloegr: Gwneud penderfyniadau ar y cyd.](#)
- [Y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal \(NICE\): Gwneud penderfyniadau ar y cyd.](#)

Dysgwch CPR

Mae Ambiwlans Sant Ioan yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch rhoi [oedolyn](#) ac i [blentyn](#).

Ble mae fy niffibriliwr cyhoeddus (AED) agosaf?

Y Gylchdaith (The Circuit) yw'r rhwydwaith diffibrilwyr cenedlaethol sy'n mapio diffibrilwyr ledled y DU, gan ddarparu gwybodaeth hanfodol i wasanaethau ambiwlans y GIG fel bod modd mynd atynt yn gyflym yn yr eiliadau hollbwysig hynny ar ôl ataliad ar y galon i helpu i achub bywydau. Mae'r Gylchdaith yn gweithio mewn partneriaeth â Sefydliad Prydeinig y Galon (BHF), Cyngor Adfywio'r DU ac Ambiwlans Sant Ioan. Bydd y Chwiliwr [Diffibriliwr](#) yn dangos diffibrilwyr sy'n agos i chi.

Gallai diffibriliwr sydd wedi'i gofrestru ar [Y Gylchdaith](#) wneud y gwahaniaeth rhwng byw a marw. Amcangyfrifir bod 100,000 o ddiffibrilwyr ledled y DU. Serch hynny, mae degau o filoedd o'r rhain yn anhysbys i'r gwasanaethau ambiwlans a brys. Ar ôl iddynt gael eu lleoli a'u cofrestru, gall y gwasanaethau brys gyfeirio pobl sy'n sefyll gerllaw at eu diffibriliwr agosaf a chynyddu siawns person o oroesi.

Ers ei lansio, mae Y Gylchdaith wedi helpu i fapio dros 50,000 o ddiffibrilwyr yn y DU. Dysgwch ragor a sut i gofrestru'ch diffibriliwr chi. Dewis arall yw gwefan [HeartSafe website](#), sydd â map o ddiffibrilwyr yn y DU.

Beth galla i ei wneud i gadw fy nghalon yn iach?

- The [Cylchgrawn Heart Matters Sefydliad Prydeinig y Galon](#) yn adnodd cynhwysfawr a diddorol ar gyfer awgrymiadau am ffordd iach o fyw a straeon personol am fyw gyda chyflyrau'r galon. Gallwch danysgrifio drwy wefan y BHF.

Mae tudalen [Live Well y GIG](#) yn cynnig cyngor am fyw'n iach, gan gynnwys bwyta deiet cytbwys, pwysau iach, ymarfer corff, rhoi'r gorau i ysmegu ac yfed llai o alcohol.

Canllaw i apiau defnyddiol ar gyfer rheoli iechyd eich calon

Rydym yn byw mewn byd sy'n fwyfwy ar-lein. Gall apiau ffôn clyfar ac apiau ar-lein eraill ein helpu i lywio drwy'r doreth ddryslyd o gefnogaeth a chyngor ar-lein sydd ar gael. Nid rhoi cyfarwyddiadau yw bwriad y canllaw hwn; y bwriad yw rhoi syniadau ichi ynghylch sut y gallwch ddefnyddio offer ar-lein am ddim i helpu i gadw'ch calon yn iach neu i reoli cyflwr sy'n bodoli eisoes. Yn ogystal â'r apiau di-dâl a awgrymir, efallai y byddwch yn gymwys yn eich ardal leol ar gyfer amryw o raglenni monitro iechyd digidol sy'n cynnwys offer hunan-brofi cartref fel cyffiau pwysedd gwaed electronig, neu mae opsiynau am dâl ar gael ar gyfer rheoli cyfnod adsefydlu cardiaidd gartref. Ymgynghorwch â'ch meddyg cyn dechrau trefn ymarfer corff newydd neu newid eich deiet.





Diolch a chydabod

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn gan Sarah Murray ac aelodau o Grŵp Cynrychiolwyr Cymunedol NICOR, a chyda chefnogaeth gan dîm NCAP, gyda dylunio graffeg gan NHS Arden a thîm Creadigol, Ymgyrchoedd a Digidol GEM.



Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil i Ganlyniadau Cardiofasgwlaidd (NICOR)

Mae [NICOR](#) yn bartneriaeth o glinigwyr, arbenigwyr TG, ystadegwyr, academyddion a rheolwyr sy'n gyfrifol am y Rhaglen Archwilio Cardiaidd Genedlaethol (NCAP) a sawl cofrestrfa technoleg iechyd, gan gynnwys cofrestrfa TAVI y DU. O'i ganolfan yn CSU Arden a GEM, mae NICOR yn casglu, dadansoddi a dehongli data cardiofasgwlaidd hanfodol a'i droi'n wybodaeth berthnasol ac ystyrlon i hybu gwelliannau cynaliadwy mewn lles, diogelwch a chanlyniadau cleifion.

Mae NICOR yn cael ei ariannu gan GIG Cymru a GIG Lloegr.

E-bost: nicor.auditenquiries@nhs.net



GIG Arden a GEM

Mae [NHS Arden & GEM](#) yn gweithio ar draws sector iechyd a gofal Lloegr i ddarparu ystod o wasanaethau, gan gynnwys caffael a chontractio, trawsnewid gwasanaethau, gwybodaeth busnes, cymorth busnes a chymorth clinigol. Mae ei allu i dynnu ar arbenigedd gan dros 1000 o staff sy'n gweithio mewn timau amlddisgyblaeth yn galluogi'r CSU i helpu comisiynwyr a darparwyr gofal iechyd i lywio a gweithredu'r newid sydd ei angen i wella gofal a chanlyniadau cleifion.

Mae cleientiaid Arden a GEM yn cynnwys mwy na 70 o gwsmeriaid, gan gynnwys Byrddau Gofal Integredig, GIG Lloegr, Systemau Gofal Integredig, Rhwydweithiau Gofal Sylfaenol, ymddiriedolaethau darparwyr y GIG ac awdurdodau lleol.

GIG Lloegr

[GIG Lloegr](#) sy'n arwain y GIG yn Lloegr. Mae GIG Lloegr yn darparu arweinyddiaeth genedlaethol i'r GIG. Mae GIG Lloegr yn creu Cynllun Iechyd 10 Mlynedd newydd, i'w gyhoeddi yng ngwanwyn 2025. Drwy'r cynllun, rydym yn hybu iechyd a gofal o ansawdd uchel i bawb ac yn helpu sefydliadau'r GIG i weithio mewn partneriaeth i sicrhau canlyniadau gwell i'n cleifion a'n cymunedau a hynny am y gwerth gorau posibl i'r trethdalwyr ac i wella'r GIG yn barhaus. Rydym yn gweithio i wneud y GIG yn gyflogwr rhagorol ac i alluogi cleifion y GIG i elwa ar ymchwil, arloesedd a thechnoleg sy'n arwain y byd.



GIG Cymru

[GIG Cymru](#) yw Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru a ariennir yn gyhoeddus, sy'n darparu gofal iechyd i ryw 3 miliwn o bobl sy'n byw yma. Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r strategaeth Gofal Iechyd, a GIG Cymru sy'n cyflawni'r strategaeth a'r gwasanaethau hynny drwy'r saith Bwrdd Iechyd Lleol, y tair Ymddiriedolaeth GIG a'r ddau Awdurdod Iechyd Arbennig. Mae gan y GIG egwyddor allweddol: dylai gofal iechyd da fod ar gael i bawb.



**Rhaglen Archwilio Cardiaidd
Genedlaethol**

**Ail Adroddiad 2025 ar gyfer cleifion,
gofalwyr a'r cyhoedd.**

(Data 2024/25 a 2022/25)